

# RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

## Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) British Sign Language (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â \* ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu  
Amendments marked \* are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant  
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu  
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest  
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling  
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –  
The Bill will be considered in the following order –

Sections 1– 6	Adrannau 1 – 6
Schedule 1	Atodiad 1
Sections 7 – 12	Adrannau 7 – 12

[R] Mark Isherwood

1

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 1, page 1, line 10, leave out ‘6(2), 7(2) and 8(2)(c)’ and insert ‘7(2) and 8(2)(c), and paragraph  
[*first paragraph to be inserted by amendment 12*] of the Schedule,’.

Adran 1, tudalen 1, llinell 10, hepgorer ‘6(2), 7(2) a 8(2)(c)’ a mewnosoder ‘7(2) ac 8(2)(c), a pharagraff  
[*paragraff cyntaf i’w mewnosod gan y welliant 12*] o’r Atodlen,’.

**Sioned Williams**

14\*

Section 1, page 1, line 10, leave out ‘and 8(2)(c)’ and insert ‘8(2)(c), and [*section to be inserted by  
amendment 15*](1)(b)’.

Adran 1, tudalen 1, llinell 10, hepgorer ‘a 8(2)(c)’ a mewnosoder ‘8(2)(c) ac [*adran i’w fewnosod gan  
welliant 15*](1)(b)’.



**[R] Mark Isherwood**

2

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 1, line 25, after ‘(a)’, insert –

’, and

- (ii) the number of persons available for the purpose of teaching and assessing those BSL translators and interpreters;’.

Adran 3, tudalen 1, llinell 24, ar ôl ‘(a)’, mewnosoder –

’, a

- (ii) nifer y personau sydd ar gael at ddiben addysgu ac asesu’r cyfieithwyr a’r dehonglwyr IAP hynny;’.

**[R] Mark Isherwood**

3

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 1, after line 25, insert –

- ‘() set out what information about the use of BSL in Wales was obtained and considered for the purpose of preparing the strategy.’.

Adran 3, tudalen 1, ar ôl llinell 24, mewnosoder –

- ‘() nodi pa wybodaeth ynghylch y defnydd o IAP yng Nghymru a gafwyd ac a ystyriwyd at ddiben llunio’r strategaeth.’.

**[R] Mark Isherwood**

4

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 2, line 4, leave out ‘Before publishing’ and insert ‘In preparing’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 5, hepgorer ‘Cyn cyhoeddi’r’ a mewnosoder ‘Wrth lunio’r’.

**[R] Mark Isherwood**

5

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 2, line 5, leave out ‘consult’ and insert ‘involve’.

Adran 3, tudalen 2, llinell 6, hepgorer ‘ymgyngori â’r’ a mewnosoder ‘gynnwys y’.



**[R] Mark Isherwood**

6

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 3, page 2, after line 9, insert –

- ‘(6) The requirement to involve the persons mentioned in subsection (5) includes –
- (a) providing them with an opportunity to make representations about the content at the beginning of the process,
  - (b) seeking their views at a formative stage of preparing a draft proposal, and
  - (c) otherwise involving them throughout the process by –
    - (i) providing sufficient information to enable them to properly consider what is proposed, and
    - (ii) providing sufficient time to enable them to adequately consider what is proposed and respond.’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘(6) Mae’r gofyniad i gynnwys y personau a grybwyllir yn is-adran (5) yn cynnwys –
- (a) rhoi cyfle iddynt i wneud sylwadau ynghylch y cynnwys ar ddechrau’r broses,
  - (b) ceisio eu barn mewn cyfnod ffurfiannol o lunio cynnig drafft, ac
  - (c) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy –
    - (i) darparu digon o wybodaeth i’w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn sy’n cael ei gynnig, a
    - (ii) darparu digon o amser i’w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn sy’n cael ei gynnig ac ymateb.’.

**[R] Mark Isherwood**

7

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 5, page 3, line 7, leave out ‘Before publishing’ and insert ‘In preparing’.

Adran 5, tudalen 3, llinell 8, hepgorer ‘Cyn cyhoeddi’ a mewnosoder ‘Wrth lunio’.

**[R] Mark Isherwood**

8

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 5, page 3, line 7, leave out ‘consult’ and insert ‘involve’.

Adran 5, tudalen 3, llinell 9, hepgorer ‘ymgyngori â’r’ a mewnosoder ‘gynnwys y’.



**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 5, page 3, after line 9, insert –

- ‘() The requirement to involve the persons mentioned in subsection (6) includes –
- (a) providing them with an opportunity to make representations about the content at the beginning of the process,
  - (b) seeking their views at a formative stage of preparing a draft proposal, and
  - (c) otherwise involving them throughout the process by –
    - (i) providing sufficient information to enable them to properly consider what is proposed, and
    - (ii) providing sufficient time to enable them to adequately consider what is proposed and respond.’.

Adran 5, tudalen 3, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

- ‘() Mae’r gofyniad i gynnwys y personau a grybwyllir yn is-adran (6) yn cynnwys –
- (a) rhoi cyfle iddynt i wneud sylwadau ynghylch y cynnwys ar ddechrau’r broses,
  - (b) ceisio eu barn mewn cyfnod ffurfiannol o lunio cynnig drafft, ac
  - (c) eu cynnwys fel arall drwy gydol y broses drwy –
    - (i) darparu digon o wybodaeth i’w galluogi i ystyried yn briodol yr hyn sy’n cael ei gynnig, a
    - (ii) darparu digon o amser i’w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn sy’n cael ei gynnig ac ymateb.’.

[R] Mark Isherwood

10

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 6, page 3, line 16, leave out subsections (2) to (3).

Adran 6, tudalen 3, llinell 18, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (3).

[R] Mark Isherwood

12

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Schedule 1, page 7, after line 4, insert –

- ‘[] The Welsh Ministers must be satisfied that the person appointed as BSL adviser –
- (a) is able to communicate effectively in BSL, and
  - (b) has appropriate personal understanding of the experiences of BSL signers.
- [] In order to be satisfied as to the matters referred to in paragraph [*first paragraph to be inserted by this amendment*], the Welsh Ministers must seek the advice of a BSL signer.’.



Atodlen 1, tudalen 7, ar ôl llinell 4, mewnosoder –

- [ ] Rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi eu bodloni bod gan y person a benodir yn gynghorydd IAP –
- (a) y gallu i gyfathrebu'n effeithiol yn IAP, a
  - (b) dealltwriaeth bersonol briodol o brofiadau arwyddwyr IAP.
- [ ] Er mwyn bod wedi eu bodloni ynghylch y materion y cyfeirir atynt ym mharagraff [paragraff cyntaf i'w mewnosod gan y gwelliant hwn], rhaid i Weinidogion Cymru geisio cyngor arwyddwr IAP'.

**[R] Mark Isherwood**

**13**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Schedule 1, page 7, after line 15, insert –

- [ ] Before appointing a person as a member of the panel, the Welsh Ministers must consult the BSL adviser.'.

Atodlen 1, tudalen 7, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- [ ] Cyn penodi person yn aelod o'r panel, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r cynghorydd IAP'.

**[R] Mark Isherwood**

**11**

**Gyda chefnogaeth / Supported by: Jane Hutt**

Section 8, page 4, after line 12, insert –

- ( ) For the purpose of preparing the report, the Welsh Ministers must obtain appropriate information about the use of BSL in Wales on a sufficiently regular basis to enable them to assess progress.'.

Adran 8, tudalen 4, ar ôl llinell 15, mewnosoder –

- ( ) At ddiben llunio'r adroddiad, rhaid i Weinidogion Cymru gael gwybodaeth briodol ynghylch y defnydd o IAP yng Nghymru yn ddigon rheolaidd i'w galluogi i asesu cynnydd.'.



Page 5, after line 1, insert a new section –

**[ ] Complaints guidance**

- (1) The Welsh Ministers must –
  - (a) publish guidance on how BSL signers may complain about access to services provided by the Welsh Ministers or listed public bodies, and
  - (b) ensure that it is available in BSL.
- (2) In relation to the guidance referred to in subsection (1), the Welsh Ministers –
  - (a) must publish the guidance no later than the date on which the BSL strategy is published in accordance with section 3(3), and
  - (b) may publish revised guidance at any time.
- (3) Before publishing guidance in accordance with this section, the Welsh Ministers must consult the Public Services Ombudsman for Wales.’.

Tudalen 5, ar ôl llinell 1, mewnosoder adran newydd –

**[ ] Canllawiau cwyno**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru –
  - (a) cyhoeddi canllawiau ar sut y caiff arwyddwyr IAP gwyno am fynediad at wasanaethau a ddarperir gan Weinidogion Cymru neu gyrff cyhoeddus rhestredig, a
  - (b) sicrhau eu bod ar gael yn IAP.
- (2) Mewn perthynas â’r canllawiau y cyfeirir atynt yn is-adran (1), o ran Gweinidogion Cymru –
  - (a) rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau heb fod yn hwyrach na’r dyddiad y cyhoeddir y strategaeth IAP yn unol ag adran 3(3), a
  - (b) cânt gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar unrhyw adeg.
- (3) Cyn cyhoeddi canllawiau yn unol â’r adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.’.

